Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
2 Chwefror 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Ian Jones, Geraint R. Jones, Emyr Williams, Edd Huws, Ifor Dylan Williams
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Gwyneth Thomas, Sioned Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Clerc ddiddordeb yn Eitem 4.4 a gadawodd yr ystafell tra bod y mater yn cael ei drafod.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr 2016.

Cynnig: Geraint R. Jones
Eilio: Emyr Williams f

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Coed Llwyn Beuno

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru bellach wedi cwblhau'r gwaith o docio'r canghennau.

4.2 Signal Ffôn Symudol a Band Eang ym Montnewydd a Llanfaglan

Ysgrifennodd y Clerc at Geraint Strello, Rheolwr Rhanbarthol BT, yn gofyn iddo ddod i siarad ac egluro'r ddarpariaeth a'r diffygion presennol yn y ardal. Bydd yn mynychu cyfarfod mis Mawrth.

4.3 Arwydd Rhes Magdalen

Mae Cyngor Gwynedd wedi tynnu'r arwydd ac maent wrthi yn ei adnewyddu.

4.4 Cynllun Pensiwn Clerc

Cytunwyd â'r egwyddor o gynnig cynllun pensiwn i'r Clerc, ern ad oes gorfodaeth i wneud hynny. Byddai'n rhaid i'r Clerc wneud cyfraniad hefyd. Oherwydd fod cyflog y Clerc yn

gymharol isel gan ei fod yn gweithio rhan amser, doedd dim budd o sefydlu cynllun pensiwn ac fe benderfynodd y Clerc nad oedd hi'n gwneud synnwyr iddo ymuno â chynllun.

4.5 Parcio Lôn Groes

Mae Cyngor Gwynedd wedi ysgrifennu at y preswylwyr i'w hatgoffa nad oes ganddynt hawliau dros y llefydd parcio a bod y llefydd parcio yn agored ac ar gael at ddefnydd y cyhoedd.

4.6 Pwyllgor Un Llais Cymru Arfon Dwyfor Rhagfyr 2016

Mynychodd y Clerc gyfarfod Un Llais Cymru yng Nghaernarfon. Bu trafodaeth ar amrywiol faterion, ond y prif fater oedd y defnydd o BDO fel archwiliwr allanol.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Rhagfyr a Ionawr 2016

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis
Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau Postio £1.10

5.3 Ad-dalu'r Clerc costau Caernarfon Herald, Rhybudd Newid i'r Cod Ymddygiad £154.80, anfoneb 3103455 Trinity Mirror

5.4 Adroddiad yr Archwiliwr Allanol 2015/16 – derbyniwyd mân sylwadau'r Archwiliwr

5.5 Cytuno ar Braesept 2017/2018

Wedi trafodaeth ar y gyllideb a gwariant ar gyfer 2017/18, ynghyd ag ystyriaeth o'r balans yn y banc, penderfynwyd peidio â chynyddu'r Praesept a'i gadw yn £15,500 ar gyfer 2017/18.

Cytunwyd hefyd y dylid gofyn i Bwyllgor Y Ganolfan am adroddiad o'r defnydd presennol o'r Ganolfan a chyfrifon.

5.6 Balans yn y Banc 1 Chwefror 2017 - £10,399.27

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

C17/0077/19/HT. Cais cynllunio 51 Llwyn Beuno, Bontnewydd. Estyniad un llawr yn y cefn a phorth ar dalcen gorllewinol y ty.

Dim gwrthwynebiad

7. GOHEBIAETH

- Arloesi Gwynedd Wledig
- Gwariant Adran 137
- Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd
- Cyflwyniad Comisiwn Ffiniau
- Llythyr gan Liz Saville Roberts A.S. – Swyddfa Treth Porthmadog

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth.

8. MATERION ERAILL

8.1 Ymchwiliad Trefn Cynllunio Cyngor Gwynedd

Cwblhawyd holiadur yn gofyn am farn ar drefniadau adran gynllunio Cyngor Gwynedd.

8.2 Ymgynghoriad ar newid enw'r Cynulliad

Cytunwyd y dylid cefnogi newid enw'r Cynulliad i'r Senedd.

8.3 Cofrestr Newidiadau Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Gwnaethpwyd newidiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dilyn archwiliad cyhoeddus. Mae'r gofrestr Newidiadau Materion Sy'n Codi ar gael i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau arno am gyfnod o 6 wythnos hyd at 9 Mawrth 2017.

Gofynnwyd i'r Clerc sicrhau nad oes unrhyw newidiadau yn ardal Cyngor Cymuned Y Bontnewydd.

8.4 Parth Cyflymder 40mya Ffrwd Cae Du

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu gosod parth cyflymder 30 mya o Ffrwd Cae Du am bellter o ychydig gannoedd o fetrau i gyfeiriad Rhostryfan. Dim gwrthwynebiad.

8.5 Defnydd Hwyl y Bont o Gae Stanley

Mae Hwyl y Bont wedi gofyn am ddefnyddio Cae Stanley ar gyfer rhai o'u gweithgareddau ym mis Gorffennaf. Gofynnwyd i'r Clerc edrych ar y brydles er mwyn sicrhau nad oes rhwystr i hyn.

8.6 Presenoldeb y Cynghorydd Christopher Hughes

Mynegwyd pryder am bresenoldeb y Cynghorydd Christopher Hughes yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned dros y misoedd diwethaf. Bu iddo golli nifer o fisoedd yn olynol heb roi ymddiheuriad.

Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at y Cynghorydd Christopher yn mynegi siom ac anfodlonrwydd yr aelodau at ei bresenoldeb.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

2 Mawrth 2017 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd.

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod Chwefror 2017